

Eluned Morgan AS/MS
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Minister for Health and Social Services



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Russell George AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol
Senedd Cymru

Seneddlechyd@senedd.cymru

21 Mawrth 2022

Annwyl Russell,

Diolch ichi am y llythyr dyddiedig 2 Mawrth 2022 gan y Pwyllgor yn dilyn fy sesiwn ar 10 Chwefror 2022. Gweler ymateb i'ch pwyntiau gweithredu isod, gan ddilyn y drefn y gosodwyd hwy yn eich llythyr.

Y rhaglen frechu

Ers imi fod yn bresennol yn y pwyllgor, rydym wedi cyhoeddi'r [Strategaeth Frechu COVID-19](#) ddiweddaraf, sy'n nodi sut y bydd y rhaglen frechu yn parhau i chwarae rhan bwysig yn y gwaith o ddiogelu pobl Cymru yn 2022, gan ganolbwyntio ar y rhai sy'n agored i niwed a'r henoed.

Wrth inni symud y tu hwnt i'r ymateb brys i'r pandemig, cawn ein harwain o hyd gan y dystiolaeth glinigol a'r dystiolaeth wyddonol ddiweddaraf gan y Cyd-bwyllgor ar Imiwneiddio a Brechu (JCVI) a Phrif Swyddog Meddygol Cymru. Nid yw COVID-19 wedi diflannu, ac mae'n rhaid inni ddysgu byw â'r feirws hwn yn union fel yr ydym yn byw gyda llawer o glefydau heintus eraill.

Er ein bod i gyd yn gobeithio am drosglwyddiad hwylus i sefyllfa COVID Sefydlog, lle y bydd tonnau newydd o heintiadau ond na ddisgwylir iddynt roi pwysau anghynladwy ar y GIG, mae'n rhaid inni hefyd fod yn barod i ymateb yn gyflym i unrhyw frigiadau o achosion neu amrywiolion newydd yn y dyfodol. Mae gennym gyfrifoldeb i ddysgu o'r pandemig a sicrhau bod gwynwch digonol yn y system i sicrhau ymateb COVID Brys pe bai ei angen. Mae Strategaeth COVID-19 yn pwysleisio'r angen parhaus i'r GIG, sydd â'i weithlu medrus a phrofiadol iawn, i ymateb yn ddi-oed ac yn effeithiol. Mae angen i'r GIG ddangos yr ystwythder a'r hyblygrwydd i gynyddu adnoddau a'r gallu i gyflawni, neu eu lleihau, yn ddibynnol ar yr angen.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Gohebiaeth.Eluned.Morgan@llyw.cymru
Correspondence.Eluned.Morgan@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Gofynnwyd i fyrddau iechyd barhau i roi dosau o frechiadau sylfaenol a brechiadau atgyfnerthu, gan gynnwys brechiadau atgyfnerthu y gwanwyn yn unol â'r amserlen bresennol. Gofynnwyd iddynt hefyd gynllunio ar sail senario craidd 'mwyaf tebygol' gan gynnwys darpariaeth ar gyfer brechiadau atgyfnerthu yr hydref, yn ogystal â chynllunio ar gyfer senario brys o 'ymchwydd' COVID-19 mewn ymateb i amrywiolyn o bryder. Mae hyn yn debyg i'r hyn a gyflawnwyd ddiwedd 2021 mewn ymateb i'r amrywiolyn Omicron.

Bydd cynlluniau'r byrddau iechyd ar gyfer brechlynnau COVID-19 yn cael eu cynnwys yn eu Cynlluniau Tymor Canolig Integredig mewn ymateb i'r Fframwaith Cynllunio. Bydd disgwyl iddynt ddarparu naratif yn eu Cynlluniau Tymor Canolig Integredig gan amlinellu eu modelau gwasanaeth a'u hamserlenni arfaethedig, yn ogystal â'u cynlluniau mewn perthynas â chynyddu'r nifer sy'n manteisio ar y gwasanaethau i'r eithaf, cynyddu tegwch, cynyddu capasiti ymchwydd a chynyddu'r gweithlu. Rydym yn disgwyl cael y cynlluniau hynny er mwyn craffu arnynt erbyn 31 Mawrth. Yn ogystal â hynny, bydd disgwyl i fyrddau iechyd adrodd ar eu cynnydd a fydd yn galluogi proses o rannu arferion da ac arloesedd.

O ran y cynnig cyffredinol i frechu pob plentyn 5-11 oed, mae uwch swyddogion cyfrifol am frechu o'r byrddau iechyd wedi cynllunio ar gyfer y sefyllfa hon eisoes, gan gynnwys sicrhau bod brechwyr sydd wedi'u hyfforddi'n bediatrig ar gael yn ogystal â chanolfannau brechu sy'n addas i blant. Maent wedi adeiladu ar yr hyn ddysgwyd o ran brechu plant 5-11 oed sy'n wynebu risg yn glinigol a phobl ifanc 12-15 oed, ac maent wedi ystyried yn ofalus sut i sicrhau tegwch o'r cychwyn cyntaf. Mae gwaith yn mynd rhagddo er mwyn sicrhau bod y canllawiau imiwneiddio a chanllawiau clinigol angenrheidiol ar gael, yn ogystal â sicrhau bod gwybodaeth ffeithiol a dibynadwy ar gael i blant a rhieni ar wefan Iechyd Cyhoeddus Cymru i helpu i lywio eu penderfyniad. Bydd byrddau iechyd yn dechrau rhoi y rhaglen hon ar waith o ganol mis Mawrth a thrwy gydol mis Ebrill a mis Mai. Y flaenoriaeth o hyd, fel y bu drwy gydol y pandemig, yw diogelu ein pobl sydd fwyaf agored i niwed a'r henoed. Dechreuwyd rhoi rhaglen brechiadau'r gwanwyn ar waith ddydd Llun 14 Mawrth.

Rwyf wedi rhoi sicrwydd i'r GIG y bydd cyllid ar gael i gefnogi eu gwaith pwysig, gan gynnwys cyllid i sicrhau lleoliadau, gweithlu a defnyddiau traul. Fodd bynnag, disgwylir y bydd byrddau iechyd yn archwilio pob cyfle i sicrhau gweithlu sy'n fwy cynaliadwy, a'u bod yn addasu eu modelau cyflawni i fod mor effeithlon â phosibl, gan ddangos gwerth am arian.

Adolygiad o gynlluniau'r gaeaf

Ers iddynt gyflwyno eu dogfennau cynllunio ym mis Tachwedd 2021, mae trafodaethau rheolaidd wedi'u cynnal â'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol. Mae adborth gan y Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol wedi llywio'r broses adolygu sydd wedi'i chynllunio.

Bydd y broses gynllunio o ran y gaeaf a'r effeithiau yn cael eu hadolygu'n ffurfiol ym mis Ebrill a mis Mai 2022 pan fydd effaith lawn y camau gweithredu a gwblhawyd i gefnogi gwytnwch y gaeaf yn hysbys. Bydd yr adolygiad hwn yn cynnwys nifer o elfennau:

- Adolygiad o'r camau a gymerwyd gan ardaloedd i asesu'r effaith o ran allbynnau a chanlyniadau (lle y mae'r data hyn ar gael). Bydd hyn yn cael ei gwblhau drwy'r prosesau a ddefnyddir ar gyfer y Gronfa Fuddsoddi Ranbarthol. Mae pob Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol yn cyflwyno adroddiad chwarterol ar gyfer y gronfa hon.

- Adborth gan randdeiliaid allweddol ynghylch y broses o ddatblygu a gweithredu cynllun y gaeaf. Bydd hyn yn cynnwys:
 - Arweinwyr y Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol a chydweithwyr ieched a gofal cymdeithasol;
 - Arweinwyr polisi Llywodraeth Cymru ar draws y Grŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
- Bydd yr adolygiad yn casglu arferion a heriau nodedig a brofwyd gan bob rhanbarth er mwyn hwyluso'r broses o ddysgu.

Bydd yr adolygiad yn cael ei hwyluso gan swyddogion Llywodraeth Cymru a bydd cyfle i gydweithwyr mewnol ac allanol roi adborth yn ddiennw er mwyn sicrhau eu bod yn gallu darparu adborth llawn a gonest.

Mae'n bosibl y bydd digwyddiad dysgu y gaeaf yn cael ei ystyried er mwyn hwyluso'r broses o rannu arferion nodedig a cheisio barn gan randdeiliaid allweddol.

Bydd adroddiad adolygu yn cael ei baratoi a fydd yn nodi canfyddiadau ac argymhellion allweddol ar gyfer gweithgareddau cynllunio pellach.

Effaith cyllid tymor byr o ran pwysau'r gaeaf

Bydd yr adolygiad o'r gwaith o gynllunio at y gaeaf yn cynnwys ystyried yr heriau o ran cyflawni, gan gynnwys y gallu i roi cyllid tymor byr i gefnogi cynlluniau'r gaeaf.

Ochr yn ochr â dyrannu cyllid i Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol i roi cefnogaeth dros gyfnod y gaeaf, gwelwyd buddsoddiad sylweddol yn ystod 2021 i gefnogi'r broses o adfer y sectorau ieched a gofal cymdeithasol, yn ogystal â chefnogi gwytnwch gwasanaethau sy'n profi effeithiau parhaus y pandemig a phwysau ehangach y system.

Mae'r broses Cynllunio Tymor Canolig Integredig yn cwmpasu cyfnod o dair blynedd gyda ffocws manwl ar y flwyddyn gyntaf. Disgwyliadau'r broses hon yw ei bod yn ystyried amrywiadau tymhorol yn y galw am wasanaethau a'r defnydd cadarn o adnoddau i gyd-fynd â'r amrywiadau hyn. Cefnogir y broses hon gan foddelu cenedlaethol ar gyfer y galw am wasanaethau COVID a modelu lleol ar gyfer y galw am bob math o wasanaethau.

Bydd y broses sydd ar y gweill o gyflwyno ac asesu Cynlluniau Tymor Canolig Integredig ar gyfer 2022-23 i 2024-25 yn cynnwys canolbwyntio ar y gwaith o reoli pwysau tymhorol.

Gobeithiaf fy mod wedi sicrhau eglurder ynghylch y materion a amlinellwyd yn eich llythyr. Fodd bynnag, rhowch wybod imi os hoffech gael rhagor o wybodaeth.

Yn gywir,



Eluned Morgan AS/MS

Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Minister for Health and Social Services